CYNGOR CAERDYDD

DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

DARPARIAETH YSGOL UWCHRADD CYFRWNG SAESNEG, YSGOL UWCHRADD CATHAYS

HYSBYSIR DRWY HYN, yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig y newidiadau canlynol i Ysgol Uwchradd Cathays, Heol y Goron, Gabalfa, Caerdydd, CF14 3XG:

- Cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Cathays o 1,072 o leoedd (5.5 Dosbarth Mynediad gyda 247 lle yn y chweched dosbarth) i 1,450 o leoedd (8 Dosbarth Mynediad gyda 250 lle yn y chweched dosbarth), o fis Medi 2023

- Codi adeiladau newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays ar safle Canolfan Maendy ger Heol y Goron a Heol y Gogledd

- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) bresennol i ddysgwyr sydd â Chyflyrau ar y Sbectrwm Awtistig o 16 o leoedd i 50 o leoedd mewn llety pwrpasol yn adeiladau'r ysgol newydd

Cynigir gweithredu'r cynnydd arfaethedig yn y capasiti, ac ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol, o fis Medi 2023.

Disgwylir y byddai disgyblion yn meddiannu'r adeiladau newydd ar safle Canolfan Maendy o fis Medi 2025.

Cynhelir Ysgol Uwchradd Cathays ar hyn o bryd gan Gyngor Caerdydd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

Agenda'r Cabinet ddydd Iau, 17 Mehefin, 2021, 2:00 pm: Cyngor Dinas Caerdydd (moderngov.co.uk)

Capasiti presennol yr ysgol yw 1,072 o leoedd gyda 247 o leoedd chweched dosbarth. Nifer cyfredol y disgyblion yn yr ysgol yw 873 (11-16) a 173 (y chweched dosbarth).

Nifer y disgyblion a gaiff eu derbyn i'r ysgol ym Mlwyddyn 7 (sef y grŵp oedran perthnasol), yn 11 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf y caiff y cynnig ei roi ar waith, fydd 240.

Capasiti arfaethedig yr ysgol ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 1,450 lle gan gynnwys y chweched dosbarth.

Yr awdurdod lleol sy'n rheoli derbyn i'r ysgol.

Mae gan y CAA ar hyn o bryd adnoddau ar gyfer 16 disgybl 11-19 oed gyda datganiadau anghenion addysgol arbennig sy'n benodol i gyflyrau ar y sbectrwm awtistig. Cynigir cynyddu lleoedd y CAA o 16 i 50 i ateb y galw a ragwelir am leoedd.

Yr Awdurdod Lleol sy'n rheoli derbyniadau i'r CAA. Byddai angen i ddisgybl gael datganiad Angen Addysgol Arbennig cyn cael ei dderbyn, yn unol â Chod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002 a'r Ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (pan ddaw i rym).

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 26 Gorffennaf 2021, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Sylwer bod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 28 diwrnod, gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, sef erbyn 26 Gorffennaf 2021.

Dyddiedig 29 Mehefin 2021

Llofnod: Davina Fiore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraethu a Swyddog Monitro
Ar ran Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Cynigir cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Cathays o 165 disgybl y grŵp blwyddyn i 240 disgybl y grŵp blwyddyn ac ymestyn y CAA bresennol yn yr ysgol o 16 lle i 50 lle o fis Medi 2023.

Y cynnig yw adeiladu ysgol newydd fwy ar safle'r ysgol gyfredol.

Byddai'r cynnig hefyd yn:

- uwchraddio cyfleusterau cymunedol yn ardaloedd Cathays a Gabalfa drwy sicrhau bod cyfleusterau ysgol llawer gwell ar gael i'w defnyddio ar y cyd â'r gymuned ehangach

- darparu lle i'r gymuned leol barhau i gael mynediad i fannau agored oddi ar y ffordd at ddefnydd hamdden anffurfiol, gan gydnabod mai dyma'r defnydd presennol ar safle'r Maendy.

Mae map safle dangosol ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgoluwchraddcathays

Mae'r map yn nodi'r gofod mynediad agored a fyddai ar gael, y ganolfan hamdden a'r traciau BMX y tu allan i ffin y datblygiad a fyddai'n cael eu cadw, y tir sydd ei angen ar gyfer yr ysgol a'r tir mynediad agored cymunedol sy'n weddill.

Mae'r map hefyd yn nodi ardal fawr o ofod cymunedol, y tu allan i ffin yr ysgol a'r ganolfan hamdden o tua 13,500m² a fyddai'n cael ei chadw. Mae hyn yn gynnydd yn swm y gofod mynediad agored anghyfyngedig sydd ar gael i'w ddefnyddio gan y gymuned leol.

Byddai'r mannau mynediad agored yn ychwanegol at y cyfleusterau a fyddai'n cael eu cynnig o fewn ffin yr ysgol a fyddai ar gael i'r gymuned y tu allan i oriau ysgol.

Pe bai'r cynnig yn symud i gam gweithredu, byddai unrhyw adeiladau newydd a fyddai'n ofynnol yn cael eu cynllunio i fodloni amodau cyllido Llywodraeth Cymru fel BREEAM a byddent hefyd yn cael eu dylunio yn unol â Bwletinau Adeiladu'r Adran Addysg sy'n nodi bod angen cynnwys y cyfleusterau canlynol mewn unrhyw ysgol:

- Lle addysgu: mewnol ac allanol
- Neuaddau
- Ardal fwyta
- Ardaloedd adnoddau dysgu
- Staff a gweinyddiaeth
- Storio
- Tai bach a gofal personol
- Cyfleusterau cegin
- Cylchrediad
- Offer a waliau mewnol